Adolygiad Amgylcheddol
Eco-Sgolion: Ysgolion Uwchradd

Dyma fformat a argymhellir ar gyfer adolygiad; fe'i lluniwyd fel teclyn archwilio y gallai'r eco-bwyllgor ei ddefnyddio yn eich ysgol. Mae'r cwestiynau wedi eu labelu fel eich bod yn gallu gweld pa rai gall y disgyblion ddarganfod yr ateb iddynt, pa rai fydd angen ymgynghori ag aelod o staff yn eu cylch a pha rai fydd angen ychydig o ymchwil.

Nid yw'r rhaglen Eco-Sgolion yn gofyn i chi gyflawni pob awgrym yn y ddogfen hon. Fe'i bwriedir fel ysgogiad ac er mwyn i chi ei defnyddio i asesu beth sy'n digwydd yn eich ysgol ar ddechrau'r rhaglen ac fel teclyn monitro blynyddol. Mae'n bosibl hefyd nad yw'n cynnwys pob syniad posibl y gallech chi weithredu arno ac felly gofynnir i chi beidio ag ystyried bod y cwestiynau'n hollgynhwysol.

Dylai'r cwestiynau fod o gymorth i aelodau'r pwyllgor feddwl am bethau i'w gwneud yn yr ysgol i wella'r amgylchedd ac am effaith yr ysgol ar y blaned. Wedyn dylid cynnwys y targedau a ddewiswyd ar gyfer y flwyddyn/tymor mewn cynllun gweithredu.

Mae'n bwysig cymryd amser i ymchwilio bob blwyddyn gan fod llawer yn gallu newid mewn 12 mis.

Dyddiad cwblhau: _____

Cwblhawyd gan:_____

Allwedd:

Gall disgyblion ddarganfod yr atebion eu hunain drwy edrych o amgylch yr ysgol yn ofalus.

Efallai bydd angen i'r disgyblion ofyn i oedolyn er mwyn canfod yr atebion i'r cwestiynau hyn.

Mae angen ychydig mwy o ymchwiliad, efallai arolwg neu holiadur i ddisgyblion.

Dull yw hwn o fesur yr effaith yr ydych yn ei gael ar yr amgylchedd, fel eich bod yn gallu dangos faint yr ydych chi'n gwella. Mae hyn yn rhan bwysig o fod yn Eco-Ysgol.

Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r cwestiynau hyn yn ategu'r cwestiynau Safbwynt Byd-eang sydd yn rhedeg trwy weddill yr adolygiad. Gallwch ystyried y rheiny yn ogystal â'r cwestiynau isod wrth adolygu eich sylw cyffredinol i Ddinasyddiaeth Fyd-eang.

A yw'r myfyrwyr i gyd yn ymwybodol o'r Nodau Byd-eang a wedi ymgymryd â prosiectau yn gysylltiedig â nhw?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi'n cysylltu â myfyrwyr o wlad arall i drafod heriau amgylcheddol neu fyd-eang?	Ydym	Nac ydym
A oes gan yr athrawon de/coffi/siwgwr Masnach Deg yn yr ystafell athrawon?	Oes	Nac oes
A oes nwyddau eraill Masnach Deg yn cael eu defnyddio yn yr ysgol?	Oes	Nac oes
A oes digon o gynnyrch Masnach Deg ar werth yn y ffreutur?	Oes	Nac oes
A yw ymwelwyr yn dod i'r ysgol i siarad am faterion lleol neu fyd-eang?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r myfyrwyr yn ymwybodol o'u Hawliau a'u Cyfrifoldebau? (yn gysylltiedig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)	Ydyn	Nac Ydyn
A oes gennych adnoddau o wledydd eraill? (e.e. arteffactau /offerynnau cerddorol/ llyfrau)	Oes	Nac oes
A ydych chi'n cynnal unrhyw ddyddiau ymwybyddiaeth i'r ysgol gyfan i gefnogi/casglu arian at bobl mewn gwledydd/sefyllfaoedd eraill?	Ydym	Nac ydym
A yw prydau ysgol weithiau'n cynnwys bwyd o ddiwylliannau/gwledydd eraill?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r myfyrwyr wedi dysgu am y ffordd y mae gwledydd eraill yn dod yn fwy cynaliadwy neu'n helpu ein planed?	Ydyn	Nac ydyn

Sylwadau / Pwyntiau Gweithredu:

Sbwriel

A oes gan yr ysgol bolisi eglur ar sbwriel?	Oes	Nac oes
Os oes – ydach chi'n gwybod beth ydi polisi sbwriel yr ysgol?	Ydym	Nac ydym
Ydych chi'n gwybod beth yw cost blynyddol glanhau'r ysgol o sbwriel?	Ydym	Nac ydym

Tu mewn i'r ysgol

A ydy'r Ysgol yn rhydd rhag sbwriel?	Ydy	Nac ydy
A oes digon o finiau yn yr ysgol?	Oes	Nac oes
A yw'r biniau yn y mannau gorau?	Ydyn	Nac ydyn
Ydy'r biniau yn cael eu gwagio'n ddigon aml?	Ydyn	Nac ydyn
A oes ardaloedd sy'n peri problem? Os oes, ble maen nhw?		
Pa fathau o sbwriel ydych chi'n eu canfod yn bennaf? (gwm cnoi, poteli, pecynnau creision, eraill)		
Ydych chi'n cadw cofnod o beth, pryd, ble a faint (Kg) o sbwriel sydd?	Ydym	Nac ydym

O amgylch yr ysgol

Ydy tir yr Ysgol yn rhydd rhag sbwriel?	Ydy	Nac ydy
Os oes sbwriel yno, ai sbwriel disgyblion yr Ysgol yw (wedi ei brynu yn yr ysgol) neu a yw'r sbwriel yn dod o'r tu allan i'r ysgol?	O'r Ysgol	O'r Tu allan
A oes digon o finiau o amgylch yr Ysgol?	Oes	Nac oes
A yw'r biniau yn y mannau cywir?	Ydyn	Nac ydyn
Ydy'r biniau yn addas? (Ydy'r sbwriel yn chwythu allan mewn gwynt, ydyn yn rhy fawr/fach?)	Ydyn	Nac ydyn
Os oes yna ardaloedd sy'n peri problem ble maen nhw?		
Pa fath o sbwriel ydych chi'n canfod fwyaf? (gwm cnoi, poteli, pecynnau creision, eraill)		
Ydych chi'n cadw cofnod o beth, pryd, ble a faint (Kg) o sbwriel sydd?	Ydym	Nac ydym

Eich Cymuned

A yw'r ardal o amgylch eich ysgol yn rhydd rhag sbwriel?	Ydy	Nac ydy
A ydy'ch cymuned yn un heb fawr o sbwriel?	Ydy	Nac ydy
A oes digon o finiau yn y gymuned?	Oes	Nac oes
A yw'r ysgol yn helpu i gadw'r gymuned yn lân?	Ydym	Nac ydym
Os oes ardaloedd sy'n peri problem, ble maen nhw?		
Pa fathau o sbwriel ydych chi'n dod o hyd iddynt yn bennaf? (gwm cnoi, poteli, pecynnau creision, eraill)		
Nifer o fagiau/pwysau (Kg) o sbwriel a gasglwyd yn ystod y casgliad sbwriel cymunedol diwethaf		

Safbwynt Byd-eang

A yw'r myfyrwyr i gyd yn gwybod am y problemau a achosir i'r amgylchedd a bywyd gwyllt trwy ollwng sbwriel?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi wedi ymchwilio i'r ffordd y mae eich sbwriel yn effeithio ar yr amgylchedd morol?	Ydym	Nac ydym
Ydy'r ysgol wedi ymchwilio i broblemau yn ymwneud â sbwriel neu atebion i'r broblem o wledydd eraill?	Ydy	Nac ydy
A ydych chi wedi cysylltu unrhyw un o'ch gweithredoedd sbwriel â'r Nodau Byd-eang?	Ydym	Nac ydym

Pwyntiau gweithredu/sylwadau:

Lleihau Gwastraff

A ydych chi bob amser yn dilyn yr hierarchaeth gwastraff trwy leihau cyn ailddefnyddio ac ailgylchu?	Ydym	Nac ydym
A oes unrhyw un yn gwirio faint o wastraff yr ydych yn ei atal rhag mynd i safleoedd tirlenwi a safleoedd llosgi (incineration)	Oes	Nac oes
Os oes, pa ganran o wastraff arbedwyd rhag mynd i dirlenwi yn ystod y flwyddyn dwethaf:		
A ydy myfyrwyr yn dysgu am arbed, ailgylchu ac ailddefnyddio fel rhan o'r cwricwlwm?	Ydyn	Nac Ydyn

Arbed

A yw'r ysgol yn defnyddio e-bost i anfon cylchlythyrau?	Ydy	Nac ydy
Ydy'r athrawon yn cyfathrebu'n electronig gyda myfyrwyr i rannu negeseuon neu waith cartref lle mae hynny'n bosib?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r athrawon yn gwneud llungopïau gefn yn gefn pan fo modd?	Ydyn	Nac ydy
A yw'r myfyrwyr yn dod â'u pecyn cinio mewn bocsys y gellir eu hailddefnyddio?	Ydyn	Nac ydy
A yw'r ysgol yn annog myfyrwyr i ddefnyddio poteli diodydd amlddefnydd?	Ydyn	Nac ydyn
A yw athrawon yn storio dogfennau yn electronig lle bo hynny'n ymarferol?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r ysgol wedi adolygu gwastraff bwyd amser cinio?	Ydy	Nac ydy
Ydy'r ysgol wedi diddymu defnyddio gwellt plastig a chyllyll a ffyrc un defnydd?	Ydyn	Nac ydyn
Ydy'r ffreutur yn gwerthu bwyd ar hambyrddau neu blatiau y gellir eu haildefnyddio?	Ydy	Nac ydy
Ble mae diodydd poeth yn cael eu gwerthu, oes disgownt neu anogaeth ar gael i fyfyrwyr sy'n defnyddio cwpanau ailddefnydd?	Oes	Nac oes
Oes gwybodaeth ar gael yn yr ysgol am nwyddau iechydol (sanitary) amldefnydd?	Oes	Nac oes

Ailddefnyddio

A yw dwy ochr y papur **bob amser** yn cael eu defnyddio cyn ei ailgylchu?	Ydy	Nac ydy
A yw papur sgrap yn cael ei droi'n llyfrau nodiadau defnyddiol?	Ydy	Nac ydy
A yw amlenni'n cael eu hailddefnyddio yn y swyddfa?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r papur toiled a'r tyweli papur yn rhai a wnaed o bapur a ailgylchwyd?	Ydyn	Nac ydyn

A yw eitemau papur a defnyddir wedi eu creu o bapur wedi ei ailgylchu?	Ydyn	Nac ydyn
A oes gennych chi siop gyfnewid ar gyfer gwisg ysgol/gemau/llyfrau/DVDau?	Oes	Nac oes
A oes gennych raglen uwchgylchu yn yr ysgol neu'r gymuned leol?	Oes	Nac oes

Ailgylchu

Pa rai ydych chi'n eu hailgylchu? (Rhowch gylch o'u cwmpas neu eu lliwddangos) Papur Plastig Caniau Cardbord Dillad/Tecstiliau Batris Ffonau Stampiau Sbectolau Bwyd wedi ei goginio Cetris inc Offer trydanol gwastraff Ysgrifbinnau		
Ydy'r gegin yn ailgylchu gwastraff bwyd?	Ydy	Nac Ydy
A oes digon o finiau ailgylchu o gwmpas yr ysgol?	Oes	Nac oes
A yw'r biniau ailgylchu bob tro'n cynnwys y pethau cywir?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi'n ceisio lleihau eich ailgylchu yn ogystal â'ch gwastraff cyffredinol trwy leihau ac ailddefnyddio?	Ydyn	Nac ydyn

Cymuned

A yw'r ysgol wedi archwilio pa mor dda y mae siopau/busnesau lleol yn lleihau/ailddefnyddio/ailgylchu?	Ydy	Nac ydy
A yw'r ysgol wedi cynnal unrhyw brosiect i helpu teuluoedd i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu yn y cartref?	Ydy	Nac ydy

Safbwynt Byd-eang

A yw pawb yn yr ysgol yn gwybod pam rydych yn ceisio lleihau gwastraff?	Ydy	Nac ydy
A yw pawb yn yr ysgol yn gwybod beth sy'n digwydd i bethau a ailgylchir?	Ydyn	Nac ydyn
A yw dosbarthiadau wedi edrych ar y ffordd y mae pobl mewn gwledydd eraill yn lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi wedi cysylltu unrhyw un o'ch gweithredoedd gwastraff â'r Nodau Byd-eang?	Ydym	Nac ydym

Pwyntiau Gweithredu / Sylwadau:

Ynni

Yn yr ysgol

A oes llenni neu fleindiau wedi eu gosod ar y ffenestri sy'n cael eu cau yn ystod y nos?	Oes	Nac oes
A yw ffenestri a drysau'n cael eu cadw ar gau bob amser pan fydd y gwres ymlaen?	Ydyn	Nac ydyn
A oes paneli adlewyrchu wedi'u gosod y tu ôl i'r rheiddiaduron?	Oes	Nac oes
Oes gan bob dosbarth thermostat ar y rheiddiadur fel eich bod yn gallu ei ostwng os yn rhy boeth?	Oes	Nac oes
Oes gan bob dosbarth thermomedr fel eich bod yn gallu ceisio cadw'r tymheredd ar 18 gradd C?	Oes	Nac oes
Os oes boiler dŵr poeth yn ystafell y staff sy'n cael ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio?	Oes	Nac oes
A yw'r peipiau a'r tanciau dŵr poeth wedi eu hynysu'n iawn?	Ydyn	Nac ydyn
A oes deunydd ynysu yn nho'r ysgol i leihau colli gwres?	Oes	Nac oes
A yw'r goleuadau **bob amser** yn cael eu diffodd mewn ystafelloedd gwag? (hyd yn oed ar oleuadau synhwyro)	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r goleuadau'n cael eu diffodd cyn gynted ag y bydd digon o olau dydd?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r switshis golau ar gyfer goleuadau sydd ger ffenestri wedi eu labelu? Er mwyn gallu ei diffodd yn hawdd yn ystod y dydd?	Ydyn	Nac ydyn
Os oes gennych oleuadau synhwyro, a ydynt yn dal wedi eu diffodd os nad oes eu hangen?	Ydyn	Nac ydyn
A yw goleuadau synhwyro ar amserydd digon byr?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r cyfrifiaduron yn cael eu diffodd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio?	Ydyn	Nac ydyn
Os yw'r cyfrifiaduron yn cael eu gadael ymlaen, ydi'r **sgriniau** yn cael eu diffodd i arbed ynni?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r uwchdaflunyddion, setiau teledu a fideos yn cael eu troi i ffwrdd yn y wal pan nad ydynt yn cael eu defnyddio?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r llungopiwyr a chyfarpar tebyg yn cael eu diffodd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio?	Ydyn	Nac ydyn
Yn ystafell y athrawon, ai dim ond digon o ddŵr i ateb y galw sy'n cael ei roi yn y tegell?	Ie	Na
A oes rhywun yn yr ysgol yn gwirio faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio/ei arbed yn rheolaidd?	Oes	Nac oes

A yw'r ysgol wedi gwneud ymchwil i ffynonellau posibl o ynni adnewyddadwy?	Ydy	Nac ydy
Os oes gennych ynni adnewyddadwy, ydy pawb yn yr ysgol yn gwybod ei fod yno a sut mae'n gweithio?	Ydyn	Nac ydyn

Cymuned

Ydych chi wedi cynnal archwiliad o ynni'r cartref i helpu teuluoedd i leihau eu defnydd o ynni?	Do	Naddo
Ydych chi'n rhannu awgrymiadau a syniadau gyda'r gymuned leol ar gyfer lleihau eu hôl troed carbon?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi wedi archwilio neu a ydych chi'n rhan o unrhyw rhaglennu ynni cymunedol?	Ydyn	Nac ydyn

Safbwynt Byd-eang

A yw pawb yn gwybod sut mae arbed ynni'n helpu ein planed?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn deall beth yw Cynhesu Byd-eang a sut rydym yn effeithio ar hinsawdd ein planed?	Ydy	Nac ydy
A yw'r myfyrwyr wedi ymchwilio i effeithiau Newid Hinsawdd ar bobl yn fyd-eang?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi wedi cysylltu unrhyw un o'ch gweithredoedd ynni â'r Nodau Byd-eang?	Ydym	Nac ydym

Pwyntiau Gweithredu / Sylwadau:

Dŵr

Ysgol

A oes mesurydd dŵr i gofnodi defnydd o ddŵr yn yr ysgol?	Oes	Nac oes
A oes rhywun yn gwirio faint o ddŵr sy'n cael ei arbed / ei ddefnyddio?	Oes	Nac oes
A oes ganddoch dap sy'n diferud?	Oes	Nac oes
Ydy'r disgyblion bob amser yn cau'r tapiau'n iawn?	Ydyn	Nac Ydyn
A yw'r toiledau wedi eu llunio i arbed dŵr trwy ddefnyddio dim ond ychydig o ddŵr pan yn fflysio?	Ydyn	Nac Ydyn
Os nad ydynt, a oes gennych ddyfeisiadau arbed dŵr yn nhanciau'r toiledau? (*e.e. bag Hippo neu boteli wedi eu llenwi â dŵr)*	Oes	Nac oes
A yw'r wrinalau'n yn fflyshio pan bod angen yn hytrach nag yn barhaol?	Ydyn	Nac ydyn
A oes gennych dapiau gwasgu? Os oes, ydynt yn gollwng dŵr ar y cyflymdra/graddfa amser cywir?	ydyn	Nac ydyn
A oes gennych gasgen ddŵr i gasglu dŵr glaw ar gyfer dyfrio planhigion?	Oes	Nac oes
A yw dŵr glaw yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio at unrhyw ddiben arall o gwmpas yr ysgol? (*e.e. Gwacáu toiledau neu gadw pyllau'n llawn)*	Ydy	Nac Ydy
A yw eich ffreutur bob amser yn defnyddio'r peiriant golchi llestri/ golchi dillad wedi ei lwytho'n llawn?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r ffreutur bob amser yn rhoi'r plwg yn y sinc wrth olchi llysiau?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r myfyrwyr yn dysgu pam bod angen i ni arbed dŵr yng Nghymru a'r broses sydd yn gysylltiedig â chael dŵr glân i'r tapiau?	Ydyn	Nac ydyn

Cymuned

A yw'r disgyblion wedi ymchwilio i ffynonellau posibl llygredd dŵr?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r disgyblion wedi ymchwilio i'r ffordd y gallant arbed dŵr gartref?	Ydyn	Nac Ydyn
Ydych chi wedi ymchwilio i'r ffordd y gallwch leihau'r perygl o lifogydd trwy leihau dŵr glaw sy'n ffoi neu gynyddu llystyfiant yn eich cymuned?	Ydyn	Nac ydyn

Safbwynt Byd-eang

Ydych chi'n dysgu am faterion yn ymwneud ag argaeledd dŵr a glanweithdra mewn gwledydd eraill?		Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi'n dysgu am yr angen i ddiogelu cefnforoedd, pysgod a phob creadur byw sy'n byw ynddynt?		ydyn	Nac ydyn
A oes gan yr ysgol gysylltiadau ag unrhyw sefydliadau dŵr cenedlaethol, fel Water Aid?	?	Oes	Nac oes
Ydych chi wedi ymchwilio i'r dŵr 'cudd' mewn bwyd a nwyddau a pha bethau yr ydym yn eu prynnu sy'n defnyddio'r meintiau mwyaf o ddŵr yn fyd-eang?		Ydym	Nac ydym
Ydych chi wedi cysylltu unrhyw un o'ch gweithredoedd dŵr â'r Nodau Byd-eang?	?	Ydyn	Nac ydyn

Pwyntiau Gweithredu / Sylwadau:

Tir yr Ysgol

O gwmpas yr ysgol

A oes mannau addas i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau a chwaraeon gwahanol?	Oes	Nac oes
A oes murluniau, mosaigau, cerfluniau neu waith celf arall wedi creu gan disgyblion?	Oes	Nac oes
A oes mannau tawel, cysgodol ar gyfer eistedd a siarad?	Oes	Nac oes
A ydych yn tyfu eich llysiau neu ffrwythau eich hunain ar dir yr ysgol?	Ydym	Nac ydym
A yw'r ysgol yn ailgylchu gwastraff gardd neu ffrwythau/llysiau mewn compostiwr neu abwydfa?	Ydy	Nac ydy
A oes gennych ddosbarth awyr agored?	Oes	Nac oes
A yw'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i awgrymu pa newidiadau neu bethau newydd yr hoffent eu cael ar dir yr ysgol?	Ydyn	Nac Ydyn
Ydy tir yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar gyfer disgyblion a bywyd gwyllt?	Ydy	Nac ydy

Cymuned

A yw rhieni neu aelodau o'r gymuned ysgol ehangach yn helpu gyda gwelliannau i dir yr ysgol?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi'n cefnogi parc/man gwyrdd/rhandir lleol?	Ydym	Nac ydym

Safbwynt Byd-eang

Os ydych yn defnyddio compost, ydych chi bob amser yn defnyddio compost heb gynnwys mawn?	Ydym	Nac ydym
A oes cynnyrch cynaliadwy'n cael eu defnyddio ar gyfer y dodrefn a'r offer chwarae awyr agored? (Er enghraifft meinciau picnic wedi eu gwneud o blastig wedi ei ailgylchu, planwyr wedi eu gwneud o eitemau wedi eu hailgylchu ac eitemau pren wedi eu gwneud o bren wedi ei ardystio gan FSC.)	Oes	Nac oes
Ydych chi wedi cysylltu unrhyw un o weithredoedd eich ysgol â'r Nodau Byd-eang?	Ydym	Nac ydym

Pwyntiau Gweithredu / Sylwadau:

Bioamrywiaeth

Ysgol

A yw eich ysgol yn darparu unrhyw rai o'r cynefinoedd canlynol ar gyfer bywyd gwyllt?	Ydy	Nac ydy
Coed		
Coedwrych		
Planhigion cynhenid sy'n gyfeillgar i beillwyr		
Pwll		
Ardal gorslyd / cors		
Ardal blodau gwyllt cynhenid		
Pentyrrau o foncyffion		
Pentyrrau o gerrig		
Ardaloedd 'gwyllt' heb eu torri		
Blychau adar		
Baddonau dŵr		
Pyst clwydo		
Porthwyr adar		
Blychau ystlumod		
Gwesty pryfed		
Cartref draenog		
Planhigion aeron / cnau		
Planhigion cynhenid sy'n gyfeillgar i bili palod		
Gaeafod Ymlusgiaid		

A yw tir yr ysgol yn rhydd rhag chwynladdwyr a phlaladdwyr?	Ydy	Nac ydy
Os ydynt yn bresennol, ydych chi'n osgoi torri coed/ mieri yn ystod tymor nythu adar?	Ydym	Nac ydym
A oes gan ddisgyblion gyfle rheolaidd i arsylwi a/neu brofi natur a bywyd gwyllt mewn ffyrdd gwahanol ar dir yr ysgol?	Oes	Nac oes
A oes byrddau / gwybodaeth ddehongliadol ar gael yn ymwneud â bywyd gwyllt?	Oes	Nac oes
Ydych chi'n cadw cofnod o'r bywyd gwyllt a welir ar eich tir?	Ydym	Nac ydym
Ydych chi wedi gwirio tir eich hysgol am unrhyw rywogaethau ymledol?	Ydym	Nac ydym

Cymuned

A ydych chi'n ymweld â safleoedd lleol tu allan i'r Ysgol I arsylwi / mwynhau natur a bywyd gwyllt?	Ydym	Nac ydym
Ydych chi wedi helpu i wella bioamrywiaeth mewn safle lleol y tu allan i'r ysgol?	Ydym	Nac Ydym
A yw myfyrwyr yn ymwybodol o golli bioamrywiaeth ar raddfa leol?	Ydyn	Nac Ydyn

Safbwynt Byd-eang

Ydych chi wedi cymryd rhan mewn arolwg bywyd gwyllt cenedlaethol? Er enghraifft, Gwylio Adar yr Ysgol yr RSPB neu Gyfrifiad Pili Palod.	Ydym	Nac ydym
A yw'r disgyblion yn ymwybodol o golli bioamrywiaeth ar raddfa fyd-eang?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi wedi gwneud unrhyw beth i atal colli bioamrywiaeth ar raddfa fyd-eang? Er enghraifft wedi ymchwilio i gynhyrchiad olew palmwydd yn gynaliadwy neu weithio gyda Maint Cymru.	Ydym	Nac ydym

Sylwadau / Pwyntiau Gweithredu:

Trafnidiaeth

Yr ysgol

A yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol neu'n teithio ar fws?	Ydyn	Nac ydyn
A ydych yn cynnal arolwg o sut mae pobl yn teithio i'r ysgol?	ydyn	Nac ydyn
A oes rhywle sych a diogel ar gyfer cadw beiciau?	Oes	Nac oes
A yw'r Ysgol yn darparu cyrsiau diogelwch beicio neu hyfforddiant cynhaliaeth beic i ddisgyblion?	Ydyn	Nac Ydyn
A ydych yn cynnal dyddiau/digwyddiadau cerdded neu feicio i'r ysgol yn rheolaidd?	Ydyn	Nac ydyn
A yw hi'n ddiogel i gerdded neu feicio i'r ysgol?	Ydy	Nac ydy
A yw ceir yn parcio i ffwrdd o fynedfa'r ysgol?	Ydyn	Nac ydyn
A yw maes parcio'r ysgol yn fan diogel ar gyfer cerddwyr?	Ydy	Nac ydy
A yw'r athrawon yn rhannu ceir pan mae modd?	ydyn	Nac ydyn
Pan mae ceir yn cael eu defnyddio a ydynt yn dod â mwy nag 1 person i'r ysgol?	Ydyn	Nac ydyn
Pan fydd disgyblion yn cael eu casglu mewn ceir, ydy'r gyrwyr yn troi yr injan i ffwrdd tra'n aros?	Ydyn	Nac ydyn
A oes rhai o gerbydau'r ysgol yn defnyddio ynni amgen e.e. trydan neu hydrogen?	Oes	Nac oes

Cymuned

A yw'r gegin yn ceisio defnyddio bwyd lleol?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r ysgol yn archebu cyflenwadau o nwyddau i'r ysgol mewn danfoniadau mawr er mwyn osgoi gormod o ymweliadau gan ddosbarthwyr?	Ydy	Nac ydy
A yw'r ysgol wedi cynnal unrhyw brosiectau i helpu teuluoedd i leihau eu defnydd o geir?	Ydy	Nac ydy

Safbwynt Byd-eang

A ydych yn dysgu am darddiad bwyd ac am filltiroedd bwyd?	Ydym	Nac ydym
A yw'r disgyblion wedi edrych ar effaith fyd-eang llygredd aer?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi wedi cysylltu unrhyw un o'ch gweithredoedd trafnidiaeth â'r Nodau Byd-eang?	Ydym	Nac ydym

Canran o ddisgyblion sydd ddim yn teithio mewn car i'r ysgol :	
Canran o staff sydd ddim yn teithio mewn car i'r ysgol?	

Pwyntiau Gweithredu / Sylwadau:

Iechyd, Llesiant a Bwyd

Yr ysgol

A yw rhan fwyaf o fwydydd ar werth amser egwyl yn fwydydd iachus?	Ydyn	Nac ydyn
A yw cantîn yr ysgol bob amser yn cynnig bwyd iachus o ryw fath?	Ydyn	Nac ydyn
A yw cantîn yr ysgol yn atal cynnig sglodion am o leiaf 3 diwrnod yr wythnos?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r disgyblion yn cael cyfle i awgrymu beth yr hoffent ei gynnwys ar y fwydlen ginio/cantîn?	Ydyn	Nac ydyn
A oes dŵr yfed ar gael am ddim trwy'r dydd?	Oes	Nac oes
A yw'r disgyblion yn cael yfed dŵr yn ystod y gwersi?	Ydyn	Nac ydyn
A ydych chi'n cysylltu eich targedau Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr ysgol (SNAG) gydag Eco-Sgolion?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r holl ddisgyblion yn cael y profiad o dyfu eu bwyd eu hunain ac wedyn ei fwyta?	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r ysgol yn defnyddio nwyddau glanhau sy'n garedig i'r amgylchedd?	Ydyn	Nac ydyn
A oes rhaglen ffitrwydd wedi ei sefydlu yn yr ysgol?	Oes	Nac oes
A oes mesurau wedi cael eu sefydlu i helpu gyda llesiant staff?	Oes	Nac oes
A yw'r disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau i helpu llesiant disgyblion? e.e ymwybyddiaeth ofalgar, tai chi, dosbarthiadau dawnsio egnïol.	Ydyn	Nac ydyn
A yw'r ysgol yn darparu cynllun mentora cymheiriaid?	Ydyn	Nac ydyn

Cymuned

Ydy'r Ysgol yn cefnogi'r banc bwyd lleol?	Ydyn	Nac Ydyn
A yw'r disgyblion yn gysylltiedig ag unrhyw brosiectau llesiant yn y gymuned, fel ymweld â chartrefi nyrsio neu brosiectau gwella'r gymuned?	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi'n cefnogi ffermwyr lleol trwy ddefnyddio bwyd lleol ac organig lle y bo'n bosibl?	Ydyn	Nac ydyn

Safbwynt Byd-eang

A yw'r disgyblionyn dysgu am effaith fyd-eang cynhyrchu bwyd yn y dosbarth? E.e olew palmwydd, cynhyrchu siwgr	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi wedi ystyried cyflwyno diwrnod dim cig i leihau ôl troed carbon yr ysgol?	Ydym	Nac ydym
Ydych chi wedi cysylltu unrhyw un o'ch gweithredoedd iechyd, llesiant a bwyd â'r Nodau Byd-eang?	Ydym	Nac ydym

Sylwadau / Pwyntiau Gweithredu: